PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Derbyshire, Lancaster, Robson, Taylor, Wood a/ac Simmons |

25 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd T Davies a’r Cynghorydd Goddard.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Rhys Taylor fuddiant oedd yn fuddiant personol gan ei fod yn gweithio i elusen mewn cysylltiad ag ansawdd aer.

27 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Diogelu’r Cyhoedd ac Is-bwyllgor Diogelu’r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

28 : CAIS CERBYD MAWREDDOG

PENDERFYNWYD: cymeradwyo’r Hyundai i40 yn gerbyd mawreddog gyda chyfyngiad oedran o 10 mlynedd.

29 : GOFYNION PRAWF, ALLYRIADAU AC OEDRAN

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn amlinellu materion ynghylch ansawdd aer yng Nghaerdydd, y polisïau cyfredol mewn perthynas ag oedran a phrofi cerbydau trwyddedig, a’r newidiadau arfaethedig i’r drefn gyfredol i ddelio gyda heriau ansawdd aer mae’r Ddinas yn eu hwynebu.

I fodloni’r gofynion dan Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (AAQD) yr EU, trwy Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, cyhoeddwyd Llywodraeth y DU ei gynllun ansawdd aer i fynd i’r afael â chrynodiadau deuocsid nitrogen (NO2) ym mis Gorffennaf 2017. Nododd y ddogfen ardal Crynodref Ddinesig Caerdydd yn ardal broblematig o ran peidio â chydymffurfio'n barhaol â chyfyngiad yr EU ar $NO_2$.

Nododd rhagfynegiadau wedi’u modelu gan Ddefra trwy ddefnyddio ei fodel Mapio Hinsawdd Llygredd nifer o gysylltiadau ffordd yng Nghaerdydd a fyddai'n parhau i fod yn fwy na Chyfyngiad yr Eu ar $NO_2$ ar ôl 2021. Rhagfynegodd y modelu hwn fethiant parhaol i gydymffurfio â’r safon $NO_2$ gyfartalog flynyddol genedlaethol ar ôl 2021 ar hyd yr A48, Eastern Avenue a’r A4232 yn agos at Barc Manwerthu Bae Caerdydd.

Arferodd Llywodraeth Cymru y pwerau ar roddwyd iddi dan adran 85(5) Deddf yr Amgylchedd 1995 a chyhoeddodd gyfarwyddeb gyfreithiol o’r enw Cyfarwyddeb

Ansawdd Aer (astudiaeth o ddichonoldeb ar Gydymffurfiaeth Deuocsid Nitrogen) 2019 Deddf yr Amgylchedd 1995.

Mae hyn wedi gofyn bod y Cyngor yn cyflawni'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth o ddichonoldeb: Cyflwyno'r Cynllun Cychwynnol ar 30 Medi 2018 ar yr hwyraf i nodi'r achos am newid a datblygu dewisiadau ar gyfer mesurau y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi camau ar waith i gydymffurfio yn yr amser byrraf posibl; cyflwyno'r Cynllun Terfynol ar 30 Mehefin 2019 ar yr hwyraf i nodi'n fanwl y dewis a ffefrir ar gyfer cydymffurfio yn yr amser byrraf posibl, gan gynnwys achos busnes llawn.

Hyd yma mae'r Cyngor wedi bodloni'r gofyniad cyntaf uchod trwy gyflwyno Cynllun Cychwynnol i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Medi 2018. Cyflwynodd yr adroddiad ganlyniadau modelu ansawdd aer a thrafnidiaeth leol manwl a chyflwynodd ganlyniadau sylweddol gwahanol i'r modelu cenedlaethol. Mae canlyniadau modelu lleol wedi nodi, ar ôl 2021, mai dim ond A4161 Stryd y Castell yng nghanol y Ddinas fydd yn fwy dros y cyfyngiad ar $NO_2$ dan yr AAQD.

Mae mwy na 2,000 o gerbydau trwyddedig yng Nghaerdydd sy'n cyfrannu at lefelau $NO_2$, gyda'r rhan fwyaf o'r cerbydau hyn nad ydynt yn bodloni'r safon allyriadau diesel Ewro 6 ddiweddaraf. Yn rhan o ymrwymiad parhaol Caerdydd i wella ansawdd aer yng Nghaerdydd, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried wrth adolygu ac adnewyddu polisïau cerbydau. Cafodd ymarfer rhannu ffynonellau llygredd NOx yn Stryd y Castell a nododd, erbyn 2021, y daw 6% o lygredd $NO_2$ o Dacsis diesel.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gwblhau Achos Busnes Amlinellol i nodi dewis a ffefrir a fydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu ateb i sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiad yn yr amser byrraf posibl. Un mesur sy'n cael ei asesu'n rhan o becyn o fesurau yn yr Achos Busnes Amlinellol yw gweithredu'r oedran diwygiedig a'r polisi allyriadau a gynigiwyd yn yr adroddiad hwn. Yn rhan o becyn ar y cyd sydd hefyd yn cynnwys gwelliannau i allyriadau bysus a theithio llesol, mae'r Cyngor wedi gallu modelu effaith y polisi arfaethedig hwn ar wella ansawdd aer yn Stryd y Castell ac mewn lleoedd eraill yng Nghaerdydd.

Yn ogystal â bodloni gofynion AAQD, dan y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM), mae gan Gyngor Caerdydd 4 Ardal Rheoli Ansawdd Aer y nodwyd eu bod yn mynd dros y safon ansawdd aer $NO_2$. Mae gwaith o fonitro data ar gyfer 2017 yn nodi bod crynodiadau cymedrig blynyddol deuocsid nitrogen a gofnodwyd mewn safleoedd lle mae lefelau perthnasol i'w cael, o fewn yr AQMAau sydd eisoes wedi'u sefydlu, yn parhau i fod yn uchel neu'n fwy na'r Safon Ansawdd Aer NO2 gymedrig flynyddol (40µg/m³). Yn ogystal â rhagfynegiadau o fethiant i gydymffurfio a nodwyd yng nghynllun cychwynnol yr astudiaeth dichonoldeb, mae trefn y LAQM a lleoliad AQMA Canol y Ddinas hefyd yn ymgorffori ffordd gyswllt A4161 Stryd y Castell.

Ar hyn o bryd mae 3 math o gerbydau wedi'u trwyddedu gan yr awdurdod; cerbydau salŵn/MPV, cerbydau salŵn/MPV wedi'u dynodi'n rhai 'mawreddog', a cherbydau haci pwrpasol, sy'n gerbydau a adeiladir yn benodol fel cerbydau hacni a all gludo person tra ei fod yn eistedd mewn cadair olwyn.

Amlinellwyd Gofynion Trwyddedu Cerbydau cyfredol i'r Aelodau.

Er mwyn i gerbyd gael ei ddosbarthu'n un 'mawreddog', rhaid iddo gael ei asesu'n oddrychol gan Aelodau Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd. Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o

gerbydau wedi'u trwyddedu'n rhai mawreddog ac yn cynnwys cerbydau megis Fiat Doblo, Peugeot Euro 7 a Citroen Berlingo a cherbydau o fath salŵn megis y Ford Mondeo, Toyota Avensis, Audi A8 a Jaguar XF. Mae rhestr lawn o gerbydau mawreddog wedi'i hatodi yn Atodiad B.

Ar hyn o bryd mae 946 o gerbydau hacni a 1,264 o gerbydau llogi preifat wedi'u trwyddedu yng Nghaerdydd. O'r rheiny a drwyddedir, oedran cerbyd hacni ar gyfartaledd yw 8.5 oed, gyda 32% o'r fflyd yn fwy na 10 oed. Oedran cerbyd llogi preifat ar gyfartaledd yw 5.9 oed, gyda 8.7% o'r fflyd llogi preifat yn fwy na 10 oed. O'r cerbydau a drwyddedir ar hyn o bryd, mae 1 cerbyd sy'n bodloni safon Ewro 2, 3.5% yn bodloni safon Ewro 3, 42% yn bodloni safon Ewro 4, 42% yn bodloni safon Ewro 5 a 12.5% yn bodloni safon Ewro 6. Felly, nid yw mwy na 87% o'r fflyd yn bodloni'r safonau allyriadau diweddaraf.

Cynigir:
• bod rhaid i bob cais i gymeradwyo cerbyd newydd, neu i newid cerbyd ar drwydded gyfredol, gydymffurfio â'r Canllawiau Polisi Allyriadau/Oedran drafft wedi'u hatodi yn Atodiad C.;
• bod y dosbarthiad statws mawreddog i gerbydau'n cael ei ddileu; a
• y caiff y paragraff canlynol ei roi yn y polisi Amodau Eithriadol:
*Ystyrir eithrio cerbydau o'r cyfyngiadau oedran dim ond pan fônt yn bodloni neu'n mynd dros y safon allyriadau Ewro 6, neu Gerbydau Allyriadau Eithriadol Isel. Rhaid i gerbydau tanwydd amgen fodloni'r cyfateb i'r safon allyriadau Ewro 6.*

Dywedwyd wrth yr Aelodau am fanylion polisïau arfaethedig mewn perthynas â mathau o gerbydau, yr oedran hynaf y gellir eu trwyddedu a pha mor aml maent yn cael eu profi.

Bydd y newidiadau arfaethedig i bolisïau yn effeithio ar y ffordd y caiff nifer sylweddol o gerbydau hacni a llogi preifat eu trwyddedu a'u profi. Felly, bydd angen ymgynghori ar newidiadau drafft i bolisïau'n helaeth â'r cyhoedd, y maes masnachu a rhandeiliaid eraill.

Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle i:
• Wella'r fflyd o gerbydau trwyddedig yn y ddinas;
• Helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn teithio mewn cerbydau sydd â'r dechnoleg ddiogelwch ddiweddaraf
• Helpu'r Cyngor i gydymffurfio â'r gyfarwyddeb gyfreithiol i gydymffurfio â chyfyngiad yr EU ar $NO_2$ yn yr amser byrraf posibl, a lleihau allyriadau CO2;
• Sicrhau cyflenwad o gerbydau modern sy'n addas i gwsmeriaid;
• Parhau i gynnig dewisiadau fforddiadwy i'r maes masnach.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Nododd yr Aelodau fod ar Stryd y Castell draffig sy'n symud yn araf a gofynnon nhw a yw unrhyw beth wedi ei gynnig i fynd i'r afael â hwn. Esboniodd y swyddogion fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Aelod Cabinet ar nifer o fesurau i fynd i'r afael â materion yn Stryd y Castell a Heol y Porth i leihau traffig a'i effaith ac i wneud pethau'n haws i feicwyr hefyd.

Nododd yr Aelodau fod llawer yn cael ei ragfynegi ar Safonau Ewropeaidd a gofynnon nhw lle y byddai'r DU yn sefyll yn gyfreithiol pe bai cytundebau'n methu ar

ôl Brexit.  Dywedodd y swyddogion y byddai unrhyw newid deddfwriaethol yn dod yn rhan o ddeddfwriaeth y DU ac nid oedd unrhyw fwriad i wneud unrhyw newidiadau yn y tymor byr; tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 2.4 yr adroddiad sy'n nodi bod y ddeddfwriaeth eisoes wedi'i chynnwys yng nghyfraith y DU a'i phasio i Lywodraeth Cymru; ond yn y tymor hir wrth i ddeddfwriaeth newid gallai pethau newid. Ychwanegodd y swyddogion fod hyn yn ymgynghoriad, y byddai angen wedyn coladu'r wybodaeth ohono a'i chyflwyno i'r pwyllgor, ni fyddai hyn yn digwydd tan ar ôl dyddiad cau Brexit ac y byddai'n fwy na thebyg tua mis Mai.

Gofynnodd yr Aelodau a yw unrhyw waith yn cael ei wneud gydag Awdurdodau Lleol eraill ar lifau trawsffiniau.   Dywedodd y swyddogion fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Safonau Cenedlaethol a bod gwaith yn cael ei wneud mewn awdurdodau lleol i fynd i'r afael â materion trawsffiniau.   Bydd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir hefyd yn adrodd barn yr Aelodau'n ôl.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw beth y gallai'r Cyngor ei wneud o ran lobio am gyllid ychwanegol, megis Cynllun Sgrapio i helpu.  Dywedodd y swyddogion fod llawer o ddewisiadau yn cael eu harchwilio i ddefnyddio cyllid i gynorthwyo'r fasnach gan gynnwys cerbydau glanach a hefyd seilwaith yn y ddinas i gefnogi cerbydau trydan; mae agwedd gynyddol yn cael ei chymryd.

Yn gyffredinol croesawodd yr Aelodau yr adroddiad ac roeddent yn falch o fod yn rhan o symud y mater yn ei flaen.

Penderfynwyd:
a) Cynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, y fasnach a rhandeiliaid eraill ar newidiadau arfaethedig i bolisïau;
b) Gwrthod y newidiadau arfaethedig i bolisïau a pharhau gyda'r fframwaith trwydded cyfredol.

30 : COFRESTR GENEDLAETHOL O DRWYDDEDAU TACSI

Dywedodd yr Aelodau fod y Sefydliad Llywodraeth Leol wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu cofrestr genedlaethol o drwyddedau gyrwyr cerbydau llogi preifat/hacni sydd wedi'u gwrthod neu'u diddymu.  Y nod yw cynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu a yw ymgeiswyr yn 'addas a phriodol' i gael trwydded.

Nes y caiff y gofrestru ei sefydlu, oni bai bod yr ymgeisydd yn datgelu, nid oes gan yr Awdurdod Trwyddedu ffordd gyson o wybod a wrthodwyd trwydded i'r ymgeisydd hwnnw yn y gorffennol, neu a yw trwydded yr ymgeisydd hwnnw wedi'i ddiddymu yn y gorffennol gan Awdurdod Trwyddedu arall.  Mae hyn yn golygu pennu a yw ymgeisydd yn berson 'addas a phriodol' i gael trwydded, gallai gwybodaeth hollbwysig er budd diogelwch y cyhoedd fod wedi'i methu.

Er enghraifft, os cafodd trwydded gyrrwr ei diddymu gan awdurdod lleol yn dilyn cwyn am ymddygiad amhriodol tuag at deithiwr, gallai gyrrwr hwnnw wneud cais am drwydded gydag awdurdod trwyddedu arall. Os methodd y gyrrwr â datgan i'r awdurdod trwyddedu bod trwydded wedi'i diddymu ni fyddai'n gwybod bod y gyrrwr wedi'i ystyried yn anaddas i gael trwydded gan awdurdod arall ac ni fyddai'n gwybod am ei ymddygiad blaenorol.

Pan gaiff cais i gael neu adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd llogi preifat/hacni ei dderbyn, bydd swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn chwilio'r gofrestr NR3.

Caiff yr holl ffurflenni cais newydd eu newid i adlewyrchu'r defnydd i'r gofrestr NR3, a rhoddir gwybod i unrhyw un sydd wedi'i ychwanegu at y gofrestru yn ysgrifenedig. Mae polisi drafft ar y defnydd o NR3 yn Atodiad B. Mae'r testun i gael ei ychwanegu at Bolisi Trwyddedu Tacsis a Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr Caerdydd yn Atodiad C.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai hyn ond yn berthnasol i Ddiddymu, ddim Gwahardd.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau a i Gymru'n unig oedd hwn a dywedwyd wrthynt mai menter y DU cyfan oedd hi.

Gofynnodd yr Aelodau am faint y byddai pobl yn aros ar y gofrestr a dywedwyd wrthynt mai am 25 o flynyddoedd y byddent yn aros arni.

Gofynnodd yr Aelodau fod yr Awdurdodau Lleol yn defnyddio dull cyson o fewnbynnu data i'r Gofrestr a Dywedwyd wrthynt fod y fformat wedi'i reoli'n gadarn.

Penderfynwyd nodi'r canlynol:
a) Y defnydd o'r gofrestr NR3, ac os caiff ei chymeradwyo:
b) Y Polisi NR3 sydd yn Atodiad B.
c) Y newid i'r Polisi Trwyddedu Tacsis a'r Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr sydd yn Atodiad C.

31 : PAPUR GWYN TRAFNIDIAETH LLYWODRAETH CYMRU

Dywedodd yr Aelodau, yn rhan o'r setliad datganoledig newydd i Gymru, a gyflwynwyd trwy Deddf Cymru 2017, y daeth trwydded tacsis, cerbydau llogi preifat, gyrwyr a gweithredwyr cerbydau llogi preifat yn fater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar 10 Rhagfyr 2018 a amlinellodd nifer o gynigion i ddeddfu er mwyn diwygio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bws lleol a thrwydded tacsis a cherbydau llogi preifat. Hefyd roedd yn y ddogfen hon ymgynghoriad arall, ar ffurf holiadur, ar y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith trwyddedu. Mae Rhan 2 y Papur Gwyn yn Atodiad A.

Felly mae Llywodraeth Cymru'n ceisio barn ar gynnig arall i drosglwyddo'r holl swyddogaethau trwyddedu sy'n bodloni yn ôl y gyfraith (gan gynnwys trwyddedu, pennu ffioedd, gorfodi, gwrando ar apeliadau sy'n dod o benderfyniadau trwyddedu, erlyniadau a phenderfynu ar faterion megis a ddylid gosod rheoliadau swm ar dacsis) o awdurdodau lleol i Awdurdod Trafnidiaeth ar y Cyd. Cyfeirir at hyn yn y Papur Gwyn fel Opsiwn A.

Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod graddfa sylweddol Opsiwn A a'r posibilrwydd am ganlyniadau anfwriadol. Felly, mae'r Papur Gwyn hefyd yn amlinellu

Opsiwn B; i gyflwyno darpariaethau i ddelio gyda'r materion wedi'u hamlinellu yn y tri maes uchod, ond i gadw'r 22 awdurdod trwyddedu cyfredol yng Nghymru.

Dywedodd y swyddogion wrth yr Aelodau fod y pwnc hwn wedi ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg i gael barn Aelodau; mae'r ddau am i Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd barhau i edrych ar ôl tacsis ac i gadw rheolaeth leol; felly byddent yn argymell Opsiwn B i Lywodraeth Cymru. Croesawon nhw i gyd gynigion ar Safonau Cenedlaethol, Gorfodi a Rhannu Gwybodaeth ond roeddent am gadw penderfyniadau lleol a pheidio â rhoi'r holl reolaeth i'r Awdurdod Trafnidiaeth ar y Cyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Croesawodd yr Aelodau'r ymgynghoriad a chredon nhw fod y Safonau Cenedlaethol yn gwneud synnwyr.

Gofynnodd yr Aelodau am yr amserlen a dywedwyd wrthynt fod yr ymgynghoriad tan 27 Mawrth ac y byddai ymgynghoriad arall yn yr Hydref.

Ystyriodd yr Aelodau a oes angen pob un o'r 22 awdurdod trwyddedu a thybion nhw a ellir cymryd agwedd SRS.  Dywedodd y swyddogion y byddai angen newid y polisi'n gyfan i wneud hyn; credodd yr Aelodau y gallai hyn fod yn rhan o'r Bil Llywodraeth Leol newydd yn nhymor hwn Cynulliad Cymru ac y gallai hyn fod yn Opsiwn C.

Cytunodd yr Aelodau y gallai fod ffit rhanbarthol gyda nifer y tacsis sy'n dod i Gaerdydd o awdurdodau cymdogol, gallai fod cyfle am ryw fath o gydweithredu. Credodd yr Aelodau y dylai hyn fod yn rhan o ymateb y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau a ellir dod o hyd i'r ddogfen ymgynghori a dywedwyd wrthynt ei fod ar wefan Cynulliad Cymru.

Penderfynwyd:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ddrafftio ymateb i'r ymgynghoriad o ran trwyddedu tacsis, ac ymgorffori'r ymateb hwnnw yn ymateb llawn y Cabinet.

32 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am